21. GWERTHOEDD TEULUOL
(stori o'r bedwaredd ganrif ar ddeg)

Yn y canol oesoedd yr oedd merched yn priodi'n ifanc. Dim ond tair ar ddeg oedd Bridget pan briododd ag Ulf Gudmarson. Prin ddwy ar bymtheg oedd hi pan aned ei phlentyn cyntaf, Marta. Ac erbyn iddi gyrraedd ei deg ar hugain roedd Ulf wedi dechrau chwilio am ŵr addas i Marta.

Yr oedd Ulf yn ŵr pwysig iawn bryd hynny yn Sweden. A gan ei fod yn ŵr pwysig byddai'n aml yn cyfarfod â gwŷr pwysig eraill. Un diwrnod cyfarfu â Syr Sigvid Ribbing. Syllodd Ulf arno'n feddylgar. Yr oedd Syr Sigvid yn ŵr golygus. Ac, yn well fyth, yr oedd ganddo arian, *ac* roedd ganddo gysylltiadau â'r teulu brenhinol. (Tybed a allwch chi ddyfalu beth oedd ar feddwl Ulf?)

Cyfnod byr oedd yna cyn i'r newyddion fynd ar led. Paratowch am briodas.

Yr oedd pawb yn gwenu ac yn llongyfarch. Roedd y tad ar ben ei ddigon. Roedd y briodferch wrth ei bodd. Roedd y priodfab yn hapus iawn. Roedd chwe brawd a chwaer y briodferch wedi gwirioni'n lân. Yr unig berson oedd yn anhapus oedd Bridget, mam y briodferch.

Nid oedd Bridget am gael Syr Sigvid Ribbing fel mab-yng-nghyfraith – nac oedd wir, dim hyd yn oed petai ef y gŵr olaf ar y ddaear! Tra edmygai Ulf Syr Sigvid oherwydd ei statws cymdeithasol ystyriai

Bridget fod cymeriad yn bwysicach. Oedd, roedd Syr Sigvid yn ŵr pwysig, ond yr oedd hefyd yn greulon. Oedd, yr oedd yn gyfoethog, ond ar draul pwy? Yn nhyb Bridget byddai syr Sigvid *Robbing* yn well enw iddo. Lleidr ydoedd a lleidr o'r math gwaethaf yn mynnu trethi uchel oddi ar y tlodion.

'Chei di ddim gadael i Marta briodi'r gwalch yna. Dwi'n gwrthod caniatáu'r fath beth,' dywedodd wrth Ulf.

Wel, yr oedd yr hen Ulf mewn sefyllfa gas. Carai ei wraig a pharchai ei dymuniadau. Mewn pymtheng mlynedd o fywyd priodasol prin fod yr un gair cas wedi bod rhwng y ddau heb sôn am gael dadl go iawn. Efallai ei fod wedi bod braidd yn fyrbwyll yn addo Marta i Sigvid. Ond allai o ddim mynd yn ôl ar ei air yn arbennig gyda gŵr mor bwysig. Byddai hynny'n hollol anfaddeuol.

Aeth Bridget yn wyn fel y galchen pan eglurodd Ulf bopeth iddi.

'Os felly,' meddai'n oeraidd, 'does gen i ddim eisiau dim i'w wneud â'r briodas yma.'

Dim byd i'w wneud â'r briodas! Tro Ulf oedd hi i fynd yn wyn fel y galchen. Beth fyddai Syr Sigvid a'i holl gyfeillion a pherthnasau pwysig yn ei feddwl petai mam y briodferch yn gwrthod eu derbyn fel gwesteion yn ei chartref? Tybiai y byddai Bridget yn gweld synnwyr. Ond doedd dim tycio ar Bridget. Nid yn unig yr oedd hyn yn straen ar drefniadau'r briodas (Ulf oedd yn gorfod trefnu popeth), yr oedd yn ddrwg i iechyd Bridget. Yr oedd Bridget yn feichiog â'i hwythfed babi. Ac yn ôl pob golwg, i gartref anhapus y câi'r baban ei eni.

Daeth dydd y briodas. Ac arhosodd Bridget yn ei hystafell. Erfyniodd Ulf arni i ddod i lawr atynt. Ymresymodd. Bygythiodd. Ond yn y diwedd bu'n rhaid iddo groesawu'r gwesteion ar ei ben ei hun.

Yr oedd Bridget yn wyllt iawn erbyn hyn. Nawr, mae yna wahanol fathau o wylltineb. Ceir gwylltineb hunanol pan na chawn ein ffordd ein hunain – sy'n gwbl anghywir. Ceir hefyd wylltineb cywir anhunanol sy'n amlygu ei hunan pan welwn gyfraith Duw yn cael ei thorri neu bobl yn cael eu brifo. Yr ail fath o wylltineb oedd wedi cydio yn Bridget. Dyma wraig oedd yn caru Duw. A dyma'i gŵr hi ei hun yn rhoi ei merch i ffwrdd i ŵr dieflig.

Yr oedd Bridget mor ofidus nes roedd ar fin torri ei chalon. A bron na ddymunai i hynny ddigwydd. 'Arglwydd, alla i ddim dioddef

hyn!' Taflodd ei hunan ar ei gliniau. Yna'n sydyn, teimlodd symudiad ei phlentyn y tu mewn iddi ac o dan guriad trwm ei chalon ei hunan clywodd guriad ysgafn calon yr un bach. A chlywodd lais Duw yn galw arni drwy lais y plentyn yn ei chroth.

'Mam, Mam, paid â'm lladd i. Os byddi di farw nawr, byddaf innau'n marw hefyd! A dwi wirioneddol eisiau byw.'

Ar hyn cododd Bridget. Safodd am ychydig, gwrandawodd ar y chwerthin a'r gerddoriaeth yng ngwledd y briodas. Rhoddodd wisg hardd wedi ei brodweithio amdani ac aeth i lawr i'r Neuadd Fawr. Heb air aeth draw at Ulf. Gafaelodd yn ei law a sefyll wrth ei ochr.

'Dwi'n dal ddim yn cytuno hefo'r hyn rwyt ti'n ei wneud,' meddai. 'Ond mae yna faterion eraill i'w hystyried heblaw dyfodol Marta. Mae ganddon ni ein priodas a'r baban newydd. Er eu mwyn hwy, rwy'n barod i anghofio 'ngwylltineb!'

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach ganed merch iddynt o'r enw Cecilia – merch gref a gafodd fywyd hir a llwyddiannus. Tra oedd hi'n fechan, bu Bridget ac Ulf ar sawl pererindod gyda'i gilydd a chryfhaodd ffydd Ulf yn Nuw. Am Marta, wel, yn union fel yr oedd Bridget wedi ei ofni, priodas anhapus a gafodd. Ond ni fu Syr Sigvid fyw yn hir iawn a thyfodd eu mab Peter i fod yn ŵr da. Aeth Bridget ymlaen i roi cymorth i lawer trwy ei hysgrifau a'i gweinidogaeth – am hyn fe'i cofir hyd heddiw.

HYD: 5 munud

NEGES: Y pwysigrwydd o faddeuant yn ein bywyd teuluol ac Eglwysig.

DARLLEN: Effesiaid 4: 25–32

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Ganed Bridget o Sweden oddeutu 1303 a bu farw ym 1373. Yr oedd ganddi wyth o blant: Marta, Karl, Birger, Bengt, Gudmar, Karin, Ingeborg a Cecilia. Wedi marwolaeth ei gŵr ym 1343 fe ddaeth i'r amlwg fel gwraig hysbys Gristnogol. Sylfaenodd Urdd y Chwiorydd Brigittine a hi yw nawddsant Sweden.